

# **Cynllun Datblygu Lleol Conwy i'w Archwilio Gan y Cyhoedd 2007 – 2022 (Argraffiad Diwygiedig 2011)**



## **PAPUR CEFNDIR 39 DIWYGIEDIG - CYFLWYNO**

### **Cydweithio â Chynghorau Cyfagos**

**Awst 2012**

Gellir gweld a lawrlwytho'r ddogfen hon ar wefan y Cyngor ar: [www.conwy.gov.uk/cdll](http://www.conwy.gov.uk/cdll), Mae copïau hefyd ar gael yn y prif lyfrgelloedd ac yn swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio, 26 Castle Street, Conwy LL32 8AY neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r ddogfen hon a fyddech gystal â chysylltu â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575181 / 575124 / 575445 / 575447.

**Os hoffech gael rhan neu grynodedb o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

# Cynnwys

## Tudalen

1. Cyflwyniad.....4
2. Cydweithio â Chynghorau Cyfagos .....4

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r papur hwn yn un o gyfres o bapurau cefndir sy'n cyd-fynd â dogfen y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi ei CDLI Diwygiedig i'w Archwilio gan y Cyhoedd, rhaid iddo egluro sut y ffurfiwyd y polisi perthnasol yn seiliedig ar y sail tystiolaeth sydd ar gael i'r Cyngor ar y pryd. Mae'r Papur Cefndir hwn yn rhoi manylion y gwaith ar y cyd sydd wedi'i wneud gyda Chynghorau cyfagos.

## 2. Cydweithio â Chynghorau Cyfagos

- 2.1 Wrth baratoi CDLI Conwy, bu cryn gydweithio ac ymgynghori â Pharc Cenedlaethol Eryri, Cynghorau Sir Ddinbych a Gwynedd, a gyda chyrrff hanfodol eraill, er mwyn ystyried materion trawsffiniol a chyd-destun ehangach.

- 2.2 Mae'r cydweithio rhwng Cynghorau wedi dylanwadu ar y dasg o baratoi'r CDLI yn y meysydd canlynol:

- **Cydllynu Polisi Cynllunio:** Cyfarfodydd Cyswllt Swyddogion Polisi Rheolaidd i drafod materion sy'n ymwneud â'r newid yn y boblogaeth a'r ffurf aelwydydd yn cynnwys amcan estyniadau poblogaeth. Bydd cyswllt rheolaidd pellach gyda Chynghorau cyfagos wrth baratoi dogfennau a bod yn rhan o gyfarfodydd rheolaidd:
  1. Cyfarfodydd Swyddogion rheolaidd
  2. Astudiaeth Is Ranbarthol Conwy/ Sir Ddinbych
  3. Asesiad o'r Farchnad Dai Rhanbarthol
  4. Digwyddiad Grŵp Ffocws CDLI Conwy yng Ngorffennaf 2005
  5. Strategaeth Wastraff Rhanbarthol
  6. Grŵp Pathfinder Gogledd Cymru
- **Cyfleoedd Economaidd:** Mae hyn wedi cynnwys lleoliad cyffredinol safleoedd cyflogaeth strategol mewn partneriaeth â Chynghorau cyfagos, sydd wedi arwain at nodi Harbwr y Foryd fel lleoliad Marina. Bu cydweithio trawsffiniol pellach gyda Pharc Cenedlaethol Eryri i hybu Gwaith Alwminiwm Dolgarrog fel safle twristiaeth a hamdden cymysg sy'n rhoi ystyriaeth i'r amgylchedd naturiol.
- **Cysylltiadau cludiant a hygyrchedd:** Mae'r cynllun yn hybu integreiddio dulliau cludiant gan gynnwys Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Llwybrau Arfordirol a llwybrau SUSTRANS rhwng Conwy, Sir Ddinbych a Pharc Cenedlaethol Eryri.

- **Newid gwledig:** Cytunwyd ar ddull er mwyn sicrhau bod aneddiadau gwledig a'u cyfleusterau a'u gwasanaethau yn cael eu diogelu. Mae Conwy a Pharc Cenedlaethol Eryri wedi gweithio'n glos i baratoi'r hierarchaeth aneddiadau er mwyn sicrhau bod amcanion yr aneddiadau a rennir yn gydnaws.
- **Mesurau bras o ran anghenion a dosbarthiad tai:** Fframwaith y cytunwyd arno ar gyfer darparu AHLN yn yr aneddiadau trawsffiniol gwledig rhwng Parc cenedlaethol Eryri a Chyngor Conwy. Ffurfiwyd polisiâu i sicrhau bod modd darparu AHLN mewn aneddiadau a rennir lle nad oes tir ar gael o ganlyniad i gyfyngiadau.
- **Hyfywdra tai fforddiadwy:** Mae cydweithio rhwng APCE a CBSC wedi bod yn hanfodol bwysig wrth lunio Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy Conwy.